



Ein Treftadaeth  
Our Heritage



**DILYNWCH Y STORI:** Canfod safleoedd eraill o ddi-ddordeb yn yr ardal hon trwy ymweld ag adfeilion rhyfeddol **Castell y Bere** ger Abergynolwyn neu mynd ar daith ar **Rheilffordd Talyllyn**.

## Beiblau a Mynachlogydd

Taith gylchynol o 40 milltir o Dref y Crynwyr, Dolgellau heibio eglwysi hen a newydd

**Hyd: Un Diwrnod**

Mae'r daith hon yn cylchynu mynydd rhyfeddol Cader Idris. Os byddwch yn treulio noson ar y mynydd hwn dywedir y byddwch yn deffro'n fardd neu'n orffwyll! Rydym yn dechrau yn **Nolgellau (1)** ble sefydlwyd cymuned ffyniannus o Grynwyr yn dilyn ymweliad gan George Fox yn 1657. Mae llawer o gyn gartrefi Crynwyr wedi goroesi yn yr ardal. Yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif roedd diwydiant gwlân gwerthfawr yn ffynnu yno, ac roeddynt yn arbenigo mewn cynhyrchu gwlanen.

Yr ymweliad nesaf yw **Abaty Cymer (2)**, yr abaty Sistersaidd a sefydlwyd yn 1198-9 dan nawddogaeth Maredudd ap Cynan, ŵyr Owain Gwynedd. Gadewch Dolgellau ar hyd yr A470 i'r dwyrain gan gymryd y tro am Brithdir ble, ar y dde y dewch o hyd i em guddiedig yn **Eglwys Sant Marc (3)**, un o'r eglwysi 'Celf a Chrefft' mwyaf coeth a mwyaf cyflawn yng Nghymru. Wedi ei hadeiladu yn y 1890au mae bellach yn ddiangen ac yng ngofal Cyfeillion Eglwysi Difyfaill.

O ddychwelyd at y briffordd dilynwch yr arwyddion i Fachynlleth ac ewch heibio Tal-y-Llyn i Abergynolwyn. O'r fan hon dim ond taith fer yn y car sydd yna heibio Castell y Bere i'r eglwys braf yn **Llanfihangel-y-Pennant (4)**. Yma mae arddangosfa yn adrodd stori Mari Jones, merch a anwyd mewn

bwthyn cyfagos yn 1784. Cynilodd am chwe blynedd i brynu Beibl a cherdded 25 milltir yn droednoeth i brynu un gan Thomas Charles o'r Bala - taith a ysbrydolodd ffurfio'r Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor.

Dychwelwch i'r briffordd a mynd yn ôl i Ddolgellau ar hyd yr A493.



Cymer Abbey © Kiran Ridley, Partneriaeth Prosiect Tywysogion Gwynedd



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014